***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### CYCHWYN ACHOSION

***Gwneud apêl neu hawliad***

**Cynrychiolwyr yr apelydd neu'r hawlydd**

**18.**—(1) Caiff yr apelydd neu'r hawlydd, yn y cais apêl neu'r cais hawlio neu drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar unrhyw adeg yn ddiweddarach—

(a) penodi cynrychiolydd;

(b) penodi cynrychiolydd arall i gymryd lle'r cynrychiolydd a benodwyd yn flaenorol ac y diddymir ei benodiad gan y penodiad diweddarach;

(c) datgan nad oes unrhyw berson yn gweithredu fel cynrychiolydd yr apelydd neu'r hawlydd, sy'n diddymu unrhyw benodiad blaenorol.

(2) Pan wneir penodiad o dan baragraff (1), rhaid i'r apelydd neu'r hawlydd roi enw, cyfeiriad, a manylion cyswllt y cynrychiolydd.